

Brîff Brexit



Plaid Cymru | Party of Wales



Diolch am gofrestru ar gyfer y Brîff Brexit cyntaf. Mae hwn yn adroddiad fydd yn cael ei gyhoeddi unwaith bob pythefnos ynglŷn â sut mae'r broses o adael yr Undeb Ewropeaidd yn effeithio Cymru a'r gwaith mae Plaid Cymru yn ei wneud i warchod swyddi a'r budd cenedlaethol. Mae llawer mwy o wybodaeth am ein gwaith ar gael ar [adran Brexit ein gwefan](#).

Mae tri rhan i'r Brîff hwn:

- 1) O lygad y Ffynnon (Senedd Ewrop)
- 2) Crynhoi o'r Cynulliad (Senedd Cymru)
- 3) Newyddion o'r Brifddinas Imperialaidd (San Steffan)

Rydym yn gobeithio y gwnewch chi fwynhau rhifyn cyntaf o'r Brîff. Mae croeso i chi yrru adborth i ni at post@plaid.cymru.

O lygad y Ffynnon

gan Jill Evans ASE & a Thîm Plaid Cymru Ewrop



Er y bydd y trafodaethau ar i'r Deyrnas Gyfunol (DG) dynnu allan o'r Undeb Ewropeaidd yn digwydd yn swyddogol rhwng y Comisiwn Ewropeaidd (gan weithredu fel trafodwr ar ran 27 aelod-wladwriaeth arall yr UE) a Llywodraeth y DG, y cam olaf yn y broses yw i Senedd Ewrop bleidleisio i gytuno ar y drefn. Penodwyd Guy Verhofstadt ASE, arweinydd y Grŵp

Rhyddfrydol a chyn-Brif Weinidog Gwlad Belg, yn drafodwr arweiniol dros Senedd Ewrop. Caiff ei gynorthwyo gan grŵp fydd yn cynnwys llywydd ac un aelod arall o bob grŵp gwleidyddol. Mae hyn yn golygu y bydd cyd-lywydd ein grŵp Gwyrddion /EFA, Philippe Lamberts (Wallonia, Gwlad Belg) a'n llywydd EFA Josep-Maria Terricabras (Catalonia) yn aelodau o'r grŵp pwysig hwn.

Nododd Guy Verhofstadt y dylid talu sylw i'r pedwar pwynt isod:

- Dim cyn-drafodaethau cyn rhoi Erthygl 50 ar waith;
- Dylai trafodaethau ddod i ben cyn etholiadau Ewropeaidd 2019;
- Mae angen i'r berthynas newydd fod yn un agos;
- [Ni all y berthynas newydd darfu ar bedwar rhyddid sylfaenol y Farchnad Sengl](#) (symud rhydd i gyfalaf, nwyddau, gwasanaethau a phobl)

Mae grŵp y Gwyrddion /EFA hefyd wedi sefydlu Gweithgor ar Brexit, ac y mae Jill Evans ASE yn aelod ohono.

Penodwyd Ms Evans hefyd i'r Pwyllgor Ymgynghori a sefydlwyd i helpu Llywodraeth Cymru yn broses o adael yr UE. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ym mis Medi.

Mae Bruegel, melin drafod ryngwladol sydd â'i ganolfan ym Mrwsel, yn ddiweddar wedi cyhoeddi cynnig diddorol am "bartneriaeth gyfandirol" wedi i'r DG adael. Byddai hyn yn galluogi Cymru i aros yn y Farchnad Sengl ond y tu allan i'r UE, trwy strwythur Ewropeaidd dwy-haen. Cyfarfu Jill Evans ag André Sapir, un o awduron yr adroddiad, yr wythnos hon i drafod yr oblygiadau i Gymru. Mae'r cynigion hyn yn cael eu trafod yn eang a gallant ddylanwadu ar y ddadl. Mae copi o'r adroddiad [i'w weld yma](#).

Cyfarfu Jill Evans y Dirprwy Brif Weinidog Martin McGuinness yr wythnos hon i drafod yr oblygiadau difrifol iawn i ogledd Iwerddon wrth adael yr UE. Cytunodd fod cydweithrediad cyson ac agos rhyngom yn hanfodol.

Mae'r Consortiwm Manwerthu Prydeinig wedi rhybuddio y gallai methiant i sicrhau bargaen fasnach dda rhwng y DG a'r UE arwain at gynnydd ym mhris nwyddau yn ein siopau. Gallai dychwelyd at reolau Sefydliad Masnach y Byd weld tariffau ar ddillad o hyd at 16%. [Gallai dileu cwotâu'r UE ar fewnforion megis cig oen Seland Newydd fod yn fygythiad difrifol i ddiwydiant cig oen Cymru wrth iddynt geisio cystadlu gyda llif o fewnforion rhad.](#)

Mae swyddogion Whitehall bellach yn cyfaddef y gall y DG orfod talu i mewn i gyllideb yr UE. Dywedodd gweinidog cabinet nas enwyd wrth y BBC y gall y DG yn y pen draw "dal tipyn go lew" i gyllideb yr UE. Mae hyn yn tanseilio ymhellach honiad yr ymgyrch Gadael a ddifriwyd eisoes y gellid gwario £350 miliwn yr wythnos yn hytrach ar y gwasanaeth iechyd.

Mae [gwledydd eraill nad ydynt yn yr UE](#) megis Norwy eisoes yn cyllido rhaglenni megis "cynllun grant yr AEE a Norwy" ar gost o 391 miliwn euro, ac erbyn 2020 byddant yn talu 550 miliwn euro i dalu am gyfraniadau EEAEFTA am raglenni megis Horizon 2020 ac Erasmus +.

Crynhoi o'r Cynulliad

Gan ein llefarydd Brexit yn y Senedd Steffan Lewis AC a'r Tîm Cynulliad



Yn dilyn y refferendwm mae Plaid Cymru wedi arwain y ffordd wrth adeiladu perthnasau newydd gydag Ewrop a siarad gyda rhanddeiliaid pwysig o fewn yr economi Gymreig. Fe wnaeth Leanne Wood arwain dirprwyaeth i Brwsel wnaeth gyfarfod â chynrychiolwyr o wladwriaethau'r UE a chenhedloedd is-wladwriaethol er mwyn trafod dyfodol Cymru yn Ewrop. Mae hi wedi teithio i gyfarfod [Airbus yn Brychdyn](#) ac i gwmni peirianeg yn Nhrostre, Llanelli i ddysgu am yr heriau maen nhw'n wynebu wrth i'r Deyrnas Gyfunol adael yr UE a beth sydd angen ei wneud er mwyn gwarchod ein heconomi.

Yn y Senedd mae ffræe wedi bod ynghylch pa berthynas ddylai Cymru ei gael gyda'r UE, gyda'r llywodraeth Lafur yn methu â dangos unhryw arweiniad. Nhw oedd y weinyddiaeth gyntaf i bleidleisio o blaid 'Brexit caled', ochr-yn-ochr â'r Ceidwadwyr ac UKIP, wrth iddynt [bleidleisio yn erbyn parhau gyda'n haelodaeth o'r Farchnad Sengl](#) yn dilyn ein hymadawiad a'r UE. Fe wnaeth Adam Price AC ddatgelu bod camgymeriad neu gynllwyn wedi digwydd wedi iddo ddarganfod bod Llywodraeth Lafur Cymru wedi newid datganiad i'r wasg oedd wedi ei roi ar eu gwefan, er mwyn adlewyrchu'r ffaith eu bod nhw wedi newid eu polisi ynghylch rhyddid symudiad. [Mae'n werth i chi wyllo'r fideo o Mr Price yn profi ei achos](#). Yn y Sunday Times fe wnaeth Steffan Lewis AC, llefarydd Plaid Cymru ar Brexit, [ddadlau bod angen undeb llai clos rhwng cenhedloedd y DG](#) er mwyn adlewyrchu safbwyntiau a sefyllfaedd gwahanol bobloedd y DG wrth i'r negodi fynd yn ei flaen.

Mae Simon Thomas AC, yr Ysgrifennydd Cabinet Cysgodol dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, wedi rhybuddio y gallai Brexit achosi ['erygd ddwbl'](#) i'r diwydiant cig eidion yng Nghymru. Gallai colli allan ar arian Ewrop ar gyfer y rhaglen difa TB yn ogystal â rheoliadau newydd wrth i Gymru adael yr UE fod yn ergyd drom i'r diwydiant. Galwodd ar y llywodraeth i weithredu nawr cyn ei bod hi rhy hwyr.

Newyddion o'r Brifddinas Imperialaidd

gan Lefarydd Brexit Plaid Cymru yn San Steffan Jonathan Edwards AS a'r Tîm



Mae Brexit yn golygu... pwy a wŷr. Does dim byd heblaw negeseuon drwslyd wedi dod o enau'r Toriaid yn San Steffan a'r weinyddiaeth ddiog Lafur yng Nghaerdydd. Dyna pam bydd ymgyrch yn cael ei lansio'r wythnos nesaf gan Blaid Cymru i wneud y ddwy lywodraeth yn atebol. Er mwyn sicrhau'r atebion mae Cymru yn eu haeddu bydd ASau Plaid Cymru yn cyflwyno un cwestiwn seneddol y diwrnod er mwyn gwneud yn siŵr fod Cymru yn cael y fargen orau posib wrth i ni adael yr Undeb Ewropeaidd.

Mae osgoi cwestiynau am Brexit ar fin mynd yn llawer anoddach ar gyfer drigolion bybl San Steffan, yn dilyn y cyhoeddiad y bydd gan Blaid Cymru sedd ar Bwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Brexit. Mi lwyddon i gael sedd ar y pwyllgor wedi i ni roi pwysau sylweddol dros eich achos, er mwyn i ni allu gwneud yn siŵr fod safbwyntiau Cymru yn cael eu cynrychioli'n deg. Mi fydd mwy o gyhoeddiadau ar y datblygiad cyffrous hwn yn eich cyrraedd yn y man.

Yr hyn rydym wedi bod yn ei wneud

Mae Plaid Cymru yn San Steffan wedi bod yn gyson ac unedig ar Brexit. Ein gôl ni ar gyfer Cymru yw parhau â'n haelodaeth o'r Farchnad Sengl. Cliciwch yma ar gyfer mwy o wybodaeth ynglŷn â pham mai dyma yw'r achos.

Er mwyn nodi achlysur 100 diwrnod ers canlyniad y refferendwm fe wnaeth ein Llefarydd Brexit yn San Steffan, Jonathan Edwards AS, esbonio'r llanast sydd wrth wraidd ymateb y pleidiau San Steffan i'r sefyllfa. Nid oes gan yr un ohonynt safbwynt dealladwy ynghylch natur ein cysylltiadau economaidd o fewn yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer y dyfodol. [Fe ddefnyddiodd y cyfle i drafod beth yn union yw cynigion Plaid Cymru.](#)

Yn ystod dadl yn Nhŷ'r Cyffredin ar adael yr UE, fe wnaeth Mr Edwards ymyrryd gan alw ar feinciau blaen Llafur [i wneud eu safbwynt yn glir](#) yn dilyn sawl achos lle maen nhw wedi gwrthdweud eu hunain yng Nghymru a San Steffan.

Fe wnaeth Mr Edwards hefyd rybuddio mewn erthygl yn yr [Huffington Post](#) y byddai gadael y Farchnad Sengl yn gallu bod yn beryglus tu hwnt i Gymru, gan fod 45% o allforion y Deyrnas Gyfunol yn mynd yno ac mai o Ewrop rydym yn cael 53% o'r cynnyrch rydym yn mewnfario.